Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

## Cefndir

1

Cynhaliwyd yr Adolygiad hwn yn dilyn marwolaeth drasig plentyn gwrywaidd 4 oed ym mis Rhagfyr 2021. Ganwyd Stanley yn 2016 ac roedd y gwasanaethau wedi ymwneud â'r teulu'n flaenorol pan gollasant blentyn arall 6 mis oed yn 2018. Ar adeg ei farwolaeth, roedd Stanley yn byw gyda'i fam a'i hanner frawd iau. Arhosodd gyda'i dad a'i fam-gu ochr ei dad y noson cyn ei farwolaeth, a ddaethant ag ef adref ar fore ei farwolaeth oherwydd ei fod yn anhwylus iawn. Nid oes esboniad am ei farwolaeth, ond nodwyd bod ei goluddion wedi'u cywasgu. Mae'r cyfnod adolygu ar gyfer Stanley o fewn paramedrau'r pandemig Covid 19 pan oedd asiantaethau'n gweithio dan bwysau amrywiol; fodd bynnag, nid oedd unrhyw newid i'r rhwymedigaethau diogelu statudol ac roedd disgwyl iddynt gael eu cyflawni o hyd.

## Cyd-destun

2

Ar adeg ei farwolaeth, roedd Stanley a'i frawd iau yn destun Cofrestriad Amddiffyn Plant. Roedd hyn yn bennaf am fod ei fam mewn perthynas â throseddwr rhyw cofrestredig, fodd bynnag cafwyd pryderon eraill ynghylch cam-drin domestig, iechyd meddwl y ddau riant, a datgeliad gan dad Stanley ei fod wedi cam-drin ei nith yn rhywiol. Tynnwyd y datgeliad hwn yn ôl, ond ymchwiliwyd i'r achos gan yr heddlu ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

Yn ystod y cyfnod pan oedd y Gwasanaethau Plant yn ymwneud â'r teulu, nodwyd bod gan Stanley problemau iechyd parhaus sef rhwymedd, a bod y meddyg teulu wedi rhagnodi meddyginiaeth iddo. Ni chafwyd unrhyw bryderon bod Stanley yn sâl yn y dyddiau cyn ei farwolaeth. Galwyd ambiwlans ar ôl iddo ddychwelyd i gyfeiriad ei fam a darganfuwyd ei fod yn cael ataliad y galon. Cafodd Stanley driniaeth feddygol yn y cartref cyn ei gludo i'r ysbyty lle, yn drist, bu farw.




## Thema 1: Ansawdd yr Asesiadau Diogelu

3

Cafwyd pryderon nad oedd sylw digonol wedi'i rhoi i ba mor fregus oedd mam Stanley wrth ymateb i'r atgyfeiriadau a gyflwynwyd. Roedd llais Stanley ar goll o'r asesiadau diogelu cynnar, ni ymwelwyd â'r cartref oherwydd y pandemig Covid a diystyrwyd pryderon am gam-drin domestig. Yn yr un modd, ni roddwyd ystyriaeth lawn i'r pryderon ynghylch iechyd meddwl tad Stanley mewn perthynas â'i allu i fod yn rhiant.

Cafodd penderfyniadau eu gwneud heb gynnal cyfarfodydd strategaeth amlasiantaethol er bod y trothwy ar eu cyfer wedi'i gyrraedd. Hefyd, roedd diffyg o ran rhannu gwybodaeth a olygai fod y broses asesu risg yn debygol o fod wedi'i pheryglu. Teimlir y dylai'r achos fod wedi symud at gynnal ymholiadau A47 yn gynt. Roedd hefyd diffyg eglurdeb o ran y rhesymeg am gau'r achos ynghyd â phryderon na chafodd yr amserlenni a bennwyd yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru eu dilyn.

## Thema 2: Cyfleoedd a fethwyd i gyflwyno atgyfeiriadau diogelu

4

Rhannodd tad Stanley ei bryderon ynghylch ei wedd a'i iechyd cyffredinol gyda'r Ymwelydd Iechyd. Dywedwyd wrtho am drafod y mater â mam Stanley a chysylltu â'r Gwasanaethau Plant os oedd ei bryderon yn parhau. Aeth yr Ymwelydd Iechyd i'r cartref a nododd bryderon hefyd; fodd bynnag, ni chyflwynwyd ffurflen Ddyletswydd i Adrodd. Mae'n bwysig i ymarferwyr feddiannu ar unrhyw bryderon a rennir â hwy heb ddibynnu ar aelodau'r teulu neu aelodau'r cyhoedd i gysylltu â'r Gwasanaethau Plant.

Cafwyd pryderon hefyd nad oedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn glir am allu mam Stanley i oruchwylio cyswllt â'i phartner, a oedd yn Droseddwr Rhyw Cofrestredig, ond ni chyflwynodd Dyletswydd i Adrodd er eglurdeb, er ei fod yn ymwybodol o'r lefel uchel o gyswllt oedd rhwng y partner a Stanley.

## Thema 3: Diystyru Cam-drin Domestig

5

Cafwyd pryderon am gam-drin domestig ym mherthynas mam Stanley ac roedd gan ei phartner hanes hir o gam-drin domestig. Fodd bynnag, roedd y pryderon yn canolbwyntio ar y risg o droseddau rhywiol a chafodd y risg o gam-drin domestig ei ddiystyru. Er y cofnodwyd bod datgeliadau Swyddogion Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO) yn cynnwys pryderon am gam-drin domestig, nid yw'n glir i ba raddau y cafodd y wybodaeth ei rhannu ac ni chafwyd unrhyw ddatgeliadau dan Gyfraith Clare. Felly nid yw'n glir a oedd mam Stanley yn gwbl ymwybodol o'r risg yn y cyd-destun hwn.

Ni wnaethpwyd atgyfeiriad yn amserol i wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA). Pan gafodd ei wneud, ni ddygwyd yr atgyfeiriad ymlaen oherwydd gwall gweinyddol, er bod cynrychiolwyr y gwasanaethau'n bresennol yn y cyfarfod Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn (MAPPA) lle tynnwyd sylw at y risg.

## Argymhellion

6

Bwrdd Diogelu Gwent i ddatblygu canllawiau parhad busnes i asiantaethau eu dilyn pan fydd digwyddiad neu sefyllfa'n effeithio ar y gwaith o gyflenwi gwasanaethau. Bydd canllawiau rhanbarthol yn sicrhau bod yr holl asiantaethau'n gweithio yn ôl set o safonau cytunedig sy'n sicrhau na chaiff y gwaith o ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion ei effeithio.

Bwrdd Diogelu Gwent i ddatblygu fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau y caiff y broses gywir ei dilyn wrth gau achosion ac er mwyn sicrhau y caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru eu dilyn.

Awdurdodau Lleol i wella argaeledd ac effeithiolrwydd hyfforddiant i ymarferwyr rheng-flaen er mwyn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymgysylltu'n ystyrlon â thadau.

Dylai presenoldeb mewn Trafodaethau Strategaeth gydymffurfio â'r argymhellion a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

## Argymhellion

7

Rhannu'r Canllawiau Ar Drothwy Dyletswydd i Adrodd â'r holl asiantaethau. Pob asiantaeth i ystyried rhoi'r canllawiau ar waith yn ei sefydliad ei hun.

Uned Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn Gwent i gynnig hyfforddiant i wasanaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig Gwent er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt mewn cyfarfodydd Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn.

Uned Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn Gwent i friffio'r holl gadeiryddion ar bwysigrwydd y gwaith o gofnodi'n gywir datgeliadau a gytunwyd yn eu cyfarfodydd.

Llunio briff 7-munud am wasanaethau'r Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (gan gynnwys yr hyn mae'r gwasanaeth yn gallu ei gynnig a'r broses atgyfeirio) a'i rhannu â sefydliadau.